2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff CF10 4BZ

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

www.hefcw.ac.uk

# Cylchlythyr | Circular

# Cynllun hepgor ffioedd is-raddedig rhan-amser CCAUC 2024/25

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 23 Gorffennaf 2024 | |
| **Cyfeirnod:** | W24/15HE | |
| **At:** | Benaethiaid darparwyr addysg uwch yng Nghymru<br>Penaethiaid colegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru | |
| **Ymateb erbyn:** | 13 Rhagfyr 2024 (Allbynnau IRIS 2023/24) i hestats@medr.cymru | |
| **Cyswllt:** | Enw: | Nicola Hunt |
| | Ffôn: | 029 2085 9735 |
| | E-bost: | nicola.hunt@hefcw.ac.uk / nicola.hunt@medr.cymru |

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu gwybodaeth am gynllun hepgor ffioedd israddedig rhan-amser CCAUC ar gyfer 2024/25, gan gynnwys dyrannu cyfanswm o £200k o gyllid i sefydliadau, ac mae'n nodi'r meini prawf y bydd angen i fyfyrwyr eu bodloni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer hepgoriad ffioedd dan y cynllun. Mae'r cyllid yn y cylchlythyr hwn yn ymwneud â blwyddyn academaidd 2024/25, sy'n ymestyn y tu hwnt i gylch gwaith disgwyliedig CCAUC, ond yng ngoleuni'r uchelgais i sicrhau proses bontio esmwyth, rydym yn disgwyl y bydd Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) yn anrhydeddu'r ymrwymiadau cyllido a wneir yma.

Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn rhoi'r gorau i weithredu ar ôl 31 Gorffennaf 2024. Bydd dyletswyddau, cyfrifoldebau a staff CCAUC yn trosglwyddo i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, o 1 Awst 2024. Bydd unrhyw gylchlythyrau y mae gofyn rhoi sylw iddynt ar ôl 1 Awst 2024 ar gael ar wefan y Comisiwn o fis Awst.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu gwybodaeth am gynllun hepgor ffioedd israddedig rhan-amser CCAUC ar gyfer 2024/25, gan gynnwys dyrannu cyfanswm o £200k o gyllid i sefydliadau, ac mae'n nodi'r meini prawf y bydd angen i fyfyrwyr eu bodloni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer hepgoriad ffioedd dan y cynllun. Mae'r cyllid yn y cylchlythyr hwn yn ymwneud â blwyddyn academaidd 2024/25, sy'n ymestyn y tu hwnt i gylch gwaith disgwyliedig CCAUC, ond yng ngoleuni'r uchelgais i sicrhau proses bontio esmwyth, rydym yn disgwyl y bydd Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) yn anrhydeddu'r ymrwymiadau cyllido a wneir yma.

2. Mae cyllid ar gael yn 2024/25 i gael ei weinyddu gan sefydliadau a gyllidir gan CCAUC ar hyn o bryd i fyfyrwyr sy'n bodloni meini prawf y cynllun, fel a amlinellir yn y cylchlythyr hwn. Darperir cyllid i hybu twf yn niferoedd y myfyrwyr rhan-amser a galluogi myfyrwyr rhan-amser i gael mynediad at addysg uwch a chael budd ohoni.

3. Anogir sefydliadau i hysbysebu'r cyllid sydd ar gael yn eang er mwyn cynyddu i'r eithaf nifer y myfyrwyr sy'n gallu cael budd ohono ac yna cofrestru ar gwrs rhan-amser sy'n bodloni meini prawf cyrsiau'r cynllun.

## Manylion y cynllun yn 2024/25

4. Nid ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r ffordd y bydd y cynllun yn gweithredu yn 2024/25 o'i gymharu â 2023/24.

5. Darperir y dyraniadau sefydliadol unigol yn **Atodiad A**. Fel ar gyfer 2023/24, rydym wedi cynnwys terfyn isaf o £2.5k i sicrhau bod yr holl sefydliadau a gyllidir yn gallu cael budd o'r cynllun. Rydym hefyd wedi cynnwys terfyn uchaf o £50k yn 2024/25 i'w gwneud yn bosibl dosbarthu'r cyllid yn deg. Hefyd, ar gyfer 2024/25, unwaith y cymhwysir terfynau uchaf ac isaf, caiff y cyllid sy'n weddill ei ailddosbarthu yn ôl yr un gyfran â'r defnydd o'r hepgoriad ffioedd yn 2022/23 yn seiliedig ar ddata wedi'i ddilysu.

6. Mae'r dyraniadau wedi cael eu cyfrifo yn ôl yr un gyfran â nifer y myfyrwyr yr ystyrir eu bod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch (AU), gan ddefnyddio data a echdynnwyd o gofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Mae'r meini prawf canlynol wedi cael eu defnyddio fel dirprwy ar gyfer asesu pa un a ystyrir bod myfyriwr o grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU: myfyrwyr yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019; myfyrwyr o ardaloedd â chyfranogiad isel mewn AU; gofalwyr, pobl ifanc sy'n gadael gofal neu fyfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal; myfyrwyr ag anableddau; myfyrwyr nad yw eu rhieni'n meddu ar gymhwyster addysg uwch; myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Amlinellir y meini prawf cymhwystra ym mharagraffau 10-12.

7. Bydd dwyster astudio'n cael ei fesur mewn gwerthoedd credydau fel arfer. Ni ddylid darparu hepgoriad ffioedd i unrhyw fyfyriwr sy'n astudio 30 o gredydau neu

fwy mewn un flwyddyn academaidd. Yn y sefyllfa lle mae myfyriwr yn gwneud llai na 30 o gredydau i ddechrau ond wedyn yn ychwanegu at hyn yn ystod y flwyddyn academaidd, ni fyddid yn ystyried bod unrhyw hepgoriad ffioedd a roddwyd yn rhan o gynllun CCAUC. Fodd bynnag, byddem yn annog darparwyr i barhau i ddarparu'r hepgoriad ffioedd hwnnw o ffynonellau eraill, lle y bo'n bosibl, er mwyn peidio ag atal myfyrwyr sy'n penderfynu yr hoffent astudio rhagor o gredydau rhag gwneud hynny. Ym mhob achos, bydd rheoliadau academaidd sefydliadol yn berthnasol.

## Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr)

8. Ar 8 Medi 2022, daeth y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn amlinellu trefniadau i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd (i'w adnabod fel Medr), a fydd yn disodli CCAUC, ac a fydd yn gyfrifol am reoleiddio a chyllido'r rhan fwyaf o ddarpariaeth ôl-16 yng Nghymru. Disgwylir y bydd Medr yn weithredol, ac y bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu, erbyn 1 Awst 2024.

9. Rydym yn disgwyl y bydd ymrwymiadau ariannol a wnaed gan CCAUC yn cael eu hanrhydeddu gan Medr, a fydd yn cynnwys trefniadau ar gyfer monitro ac adhawlio arian lle ceir tanwariant. Rydym yn disgwyl i Medr wneud y taliadau o'r cynllun hwn i sefydliadau ym mis Medi 2024. Pe bai'n rhaid i ni ddiwygio'r proffil hwn, byddwn yn hysbysu sefydliadau cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

## Meini prawf cymhwystra myfyrwyr

10. Rhaid i fyfyriwr sydd wedi'i gofrestru ar gwrs cymwys:

    (i) cael ei ystyried yn rhywun cymwys ar gyfer cyllid yn ôl y diffiniad a ddarparwyd yn arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch (HESES) CCAUC
    (ii) bod yn rhywun sy'n hanu o Gymru (byddai darparu cyfeiriad yng Nghymru gan y myfyriwr yn cael ei ystyried fel arfer yn dystiolaeth ddigonol ei fod yn hanu o Gymru).

    <u>a</u> bodloni un neu fwy nag un o'r amodau canlynol:
    a) mae'r myfyriwr neu deulu'r myfyriwr[1] yn cael:
    Credyd Cynhwysol neu'r budd-daliadau a'i rhagflaenodd[2]
    Lwfans Ceisio Gwaith
    Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
    b) mae'r myfyriwr yn cael:
    Lwfans gofalwr neu gredyd gofalwr

---

[1] At ddiben maen prawf (a) mae'r diffiniad o 'teulu' fel a ganlyn: cwpl priod, mewn partneriaeth sifil neu ddi-briod, neu gwpl priod neu ddi-briod, neu gwpl mewn partneriaeth sifil â phlant dibynnol, neu riant sengl â phlant dibynnol.
[2] Budd-dal tai, Cymhorthdal incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, lle mae'r rhain yn dal i fod yn berthnasol.

Premiwm anabledd neu gymorth ariannol arall sy'n gysylltiedig ag anabledd
Budd-daliadau profedigaeth[3]

c) bod o grŵp yr ystyrir ei fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, megis:
   - myfyrwyr o bob oed o ardaloedd yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019
   - myfyrwyr o bob oed o ardaloedd sydd â chyfranogiad isel fel a fesurwyd gan y gyfran o oedolion o oedran gweithio â chymwysterau AU o gyfrifiad 2021 (y ddau gwintel isaf). Sylwer mai dim ond ar gyfer Cymru a Lloegr y mae'r data yma ar gael ar hyn o bryd a bod data cyfatebol ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon i fod i gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2024
   - pobl ifanc sy'n gadael gofal neu fyfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal
   - myfyrwyr ag anableddau
   - myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol
   - myfyrwyr LHDTC+
   - ffoaduriaid a cheiswyr lloches
   - myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu
   - y rhai sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

11. Sefydliadau sydd i asesu cymhwystra myfyrwyr sy'n ymgeisio am drefniadau hepgor ffioedd, ac i lunio proses gyfiawn a theg ar gyfer gweinyddu ffioedd dan y cynllun. Ein bwriad cyffredinol ni yw y dylai sefydliadau ddyrannu arian i fyfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf uchod ac a fyddai'n cael budd o gael addysg uwch ran-amser. Ceir gwybodaeth am adnabod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch yng nghanllawiau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad CCAUC.

**Meini prawf cymhwystra cyrsiau**

12. I ateb y gofyniad o ran bod y cwrs yn gymwys, rhaid i fyfyriwr:

(i) bod yn astudio'n rhan-amser ar ddwyster sy'n fwy na, neu'n hafal i, 3% ac yn llai na 25% o'r amser y mae myfyriwr cyfwerth ag amser llawn yn astudio. Y diffiniad o astudio'n rhan-amser yw'r un a ddefnyddir gan CCAUC yn ei arolwg HESES 2023/24. Bydd hwn yn cael ei fesur mewn gwerthoedd credydau yn berthynol i flwyddyn safonol dybiedig â 120 o gredydau ar gyfer myfyriwr israddedig amser llawn ac mae felly'n cyfateb i astudio llai na 30 o gredydau ar gyfer blwyddyn academaidd yr hepgoriad ffioedd. Os bydd unrhyw fyfyriwr yn astudio 30 o gredydau neu fwy dros y flwyddyn academaidd bydd yn peidio â bod yn gymwys mwyach ar gyfer cynllun hepgor ffioedd rhan-amser CCAUC ond anogir darparwyr i barhau i ddarparu'r hepgoriad ffioedd hwnnw o ffynonellau eraill.

Mae CCAUC yn cydnabod nad yw myfyrwyr rhan-amser yn dilyn cwrs astudio ar sail blwyddyn academaidd draddodiadol o anghenraid. Fodd

[3] Mae gwybodaeth am y budd-daliadau a restrir uchod a'r diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y budd-daliadau hyn ar gael ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

bynnag, er symlrwydd gweinyddol bydd y cynllun grant yn seiliedig ar y flwyddyn academaidd ar gyfer darparwyr AU, h.y. 1 Awst – 31 Gorffennaf.

(ii) bod wedi'i gofrestru, fel newydd-ddyfodiad yn 2024/25 neu fyfyriwr sy'n parhau, ar raglen gyda'r nod o ennill cymhwyster addysg uwch israddedig cydnabyddedig[4]; neu ar gwrs, modiwl neu uned (gan gynnwys darpariaeth micro-gymhwyster) sy'n ei gwneud yn bosibl ennill credyd y gellid ei gyfrif tuag at gymhwyster addysg uwch israddedig cydnabyddedig. Dylai sefydliadau gysylltu â CCAUC neu Medr i gael eglurhad os oes amheuaeth beth sy'n cael ei ystyried yn gwrs sydd o fewn cwmpas y cynllun.

Nid yw cyrsiau heb gredydau a chyrsiau ôl-radd yn gymwys ar gyfer y cynllun.

Nid yw myfyrwyr yn gymwys i gael cyllid i ailadrodd cwrs nac unrhyw fodiwlau nac unedau mewn cwrs, ac eithrio mewn achosion lle gallai amgylchiadau esgusodol fod yn berthnasol. Dylai darparwyr gysylltu â CCAUC neu Medr i gael eglurhad yn yr achosion hyn.

(iii) bod yn astudio ar gwrs sy'n cyfateb i bum gwerth credyd neu fwy fel a ddiffiniwyd gan y Fframwaith Credydau a Chymwysterau (FfCaCh).

Caiff gwerthoedd credydau eu pennu ar sail safon FfCaCh sef 120 gwerth credyd sy'n gyfwerth ag un flwyddyn academaidd o brofiad addysg uwch ar gyfer israddedigion amser llawn.

**Gweinyddu'r cynllun**

13. Er mwyn i sefydliad ddyroddi arian i fyfyrwyr trwy'r cynllun hepgor ffioedd, rhaid i'r darparwr fod wedi'i argyhoeddi bod y meini prawf cymhwystra wedi cael eu bodloni mewn perthynas ag (i) cwrs y myfyriwr, a (ii) amgylchiadau personol y myfyriwr.

14. Dylai sefydliadau gofnodi'r meini prawf cymhwystra cyn bod ffioedd yn cael eu hepgor. Os oedd dogfennaeth yn ofynnol i brofi cymhwystra i gael hepgoriad ffioedd (e.e. cael budd-daliadau) dylai'r darparwr gadw tystiolaeth o'r ddogfennaeth honno at ddibenion archwilio. Efallai y bydd Medr yn dymuno archwilio'r meini prawf cymhwystra a ddefnyddiwyd a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ddiweddarach, yn ogystal â monitro gan ddefnyddio data HESA ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

15. Dylai statws myfyriwr gael ei asesu ar ddechrau rhaglen astudio fel arfer. Wedyn dylai gael ei ailasesu o leiaf unwaith bob deuddeng mis wedi hynny, tra pery'r cyfnod astudio.

[4] Gweler Atodiad B yng Nghylchlythyr W22/40HE.

16. Dim ond ffioedd dysgu sy’n gymwys ar gyfer hegporiad ffioedd. Nid yw cost unrhyw ffioedd ar gyfer asesiadau neu arholiadau, yn ychwanegol at y rhai sydd wedi’u cynnwys yn y ffioedd dysgu, yn gymwys dan y cynllun hwn.

17. Bydd sefydliadau a gyllidir sy’n cynnig hepgoriadau ffioedd dan y cynllun hwn yn cael eu cefnogi trwy gyllid gan Medr. Rydym yn annog darparwyr i weithredu a hyrwyddo cynlluniau eraill i recriwtio a chefnogi myfyrwyr rhan-amser gan ddefnyddio, er enghraifft, drefniadau cymorth fel a nodwyd mewn cynlluniau ffioedd a mynediad.

18. Bydd rhai achosion ar ymylon y meini prawf cymhwystra a nodir uchod. Mewn achosion o’r fath lle byddai dyfarnu hepgoriad ffioedd, ym marn y darparwr, yn amlwg yn ateb diben y cynllun ar y cyfan, gall darparwyr arfer disgresiwn rhesymol wrth brofi cymhwystra myfyrwyr. Mae’n bwysig bod y rheswm dros arfer disgresiwn yn cael ei gofnodi gan y sefydliad, gan y gallai hwn gael ei archwilio gan Medr yn ddiweddarach.

19. Ni all cyllid ond cael ei ddarparu i gefnogi ffioedd dysgu a hepgorwyd ar gyfer y myfyrwyr hynny yr ystyrir eu bod yn gymwys ar gyfer cynllun hepgor ffioedd israddedig rhan-amser CCAUC, fel a nodir uchod, ac o fewn cyfanswm y cyllid sydd ar gael. Gall ffioedd gael eu hepgor hyd at gost lawn ffioedd dysgu’r cwrs, neu fel hepgoriad rhannol. Rhaid i’r holl grantiau a delir gael eu defnyddio at y dibenion y’u darperir ar eu cyfer.

## Newidiadau mewn amgylchiadau

20. Gall newid perthnasol mewn amgylchiadau beri i fyfyriwr fod, neu beidio â bod, yn gymwys ar gyfer hepgoriad ffioedd yn ystod cyfnod astudio. Lle cyfyd achos o’r fath, dylai’r darparwr geisio hepgor, ad-dalu neu hawlio ffioedd, fel y bo’n briodol. Dylai darparwyr ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr eu hysbysu os ceir newid perthnasol o’r fath yn eu hamgylchiadau.

21. Gall myfyriwr benderfynu newid o ddull astudio amser llawn i ddull astudio rhan-amser. Os yw’r newid statws hwn yn golygu bod y myfyriwr yn bodloni’r meini prawf cymhwystra yna, lle y bo’n ymarferol, dylai’r myfyriwr allu cael budd o’r cynllun. Rhaid ymdrin ag achos o’r fath yn yr un ffordd ag unrhyw newid sylweddol arall mewn amgylchiadau.

## Monitro ac adhawlio arian

22. Mae’n ofynnol i sefydliadau ddychwelyd y data sy’n ymwneud â hepgoriadau ffioedd rhan-amser ar gofnod myfyrwyr HESA, fel a ddisgrifir ym mharagraffau 24-31 isod. Lle nad yw sefydliadau wedi gwario eu dyraniad hepgor ffioedd yn 2024/25 bydd y cyllid yn cael ei adhawlio gan Medr.

## Hyrwyddo'r cynllun

23. Byddem yn disgwyl i ddarparwyr hyrwyddo cyfleoedd hepgor ffioedd i'r myfyrwyr hynny y mae'r polisi hwn wedi'i fwriadu i'w cefnogi, yn enwedig y rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.

## Dyrannu a monitro

Monitro yn 2023/24

24. Nid ydym wedi monitro'r hepgoriadau ffioedd a roddwyd dan gynllun 2023/24 eto felly rydym yn cynnwys manylion sut y byddwn yn gwneud hynny gan ddefnyddio data cofnod myfyrwyr HESA yma. Er mwyn monitro hepgoriadau ffioedd rhan-amser 2023/24, byddwn yn echdynnu data a ddychwelwyd gan ddarparwyr ar gofnod myfyrwyr HESA ac yn cymharu gwerth gwirioneddol hepgoriadau ffioedd â'r dyraniad a ddarparwyd ar gyfer 2023/24. Lle mae gwerth gwirioneddol hepgoriadau ffioedd yn llai na'r dyraniad a ddarparwyd, bydd arian yn cael ei adhawlio.

25. Echdynnir y data fel rhan o'r broses lle mae darparwyr yn cyflwyno cofnod myfyrwyr HESA i Jisc. Mae darparwyr yn cael allbwn a gynhyrchir gan Medr trwy'r Gwasanaeth Rhyngwyneb Adrodd Gwybodaeth (IRIS). Mae hyn yn cynnwys tabl monitro'r cynllun hepgor ffioedd rhan-amser y gellir ei lawrlwytho ar gyfer gwirio. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gymeradwyo'r data yn y tabl hwnnw â llofnod electronig.

26. Dylai darparwyr ddynodi ar y tabl ac yn eu neges e-bost esboniadol unrhyw newidiadau i'w data a gymeradwywyd i roi cyfrif am wallau yn y data a dychwelyd y tabl at Medr, ynghyd ag eglurhad ar gyfer y newid, fel rhan o'r drefn ehangach ar gyfer dychwelyd allbynnau IRIS wedi'u llofnodi. Dylai newidiadau i'r tabl gael eu gwneud mewn coch. Rhaid i'r tabl y gellir ei lawrlwytho sy'n cael ei gymeradwyo gael ei gymryd o'r allbwn terfynol o IRIS a gynhyrchir o'r data HESA terfynol (wedi'i gymeradwyo) a gyflwynir i Jisc.

27. Mae'r tabl y gellir ei lawrlwytho'n dangos gwybodaeth am swm y ffioedd a hepgorwyd (maes HESA StudentFinancialSupport.FINSUPAMOUNT) lle nodwyd fod hepgoriad ffioedd wedi cael ei ddyfarnu yn y maes HESA StudentFinancialSupport.FINSUPTYPE. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan HESA yn llawlyfr codio'r cofnod myfyrwyr. Dylai aelodau o staff sy'n gyfrifol am y cynllun hepgor ffioedd rhan-amser gysylltu â'r cyswllt/cysylltiadau cofnod myfyrwyr HESA ar gyfer eu sefydliad hwy er mwyn iddynt allu lawrlwytho'r dadansoddiad a chraffu arno, ei wirio o ran cysondeb a chwilio am anghysonderau y gall fod angen eu hegluro. Unwaith y mae darparwyr yn fodlon ar y data ac unrhyw esboniadau a newidiadau gofynnol, dylai darparwyr lofnodi'n electronig o dan y tabl ac e-bostio'r copi wedi'i lofnodi atom ni. Dylai'r tabl gael ei lofnodi gan y llofnodwr awdurdodedig ar gyfer y data hepgor ffioedd rhan-amser. Caiff enwau'r llofnodwyr awdurdodedig eu casglu'n flynyddol gan ddarparwyr yn yr hydref.

28. Fel croeswiriad, byddwn hefyd yn dadansoddi data HESA pan fyddwn yn cael y fersiwn derfynol o ddata cofnod myfyrwyr HESA wedi'i gymeradwyo ar gyfer yr holl ddarparwyr.

29. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn y cylchlythyr Gofynion Data a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Awst 2024.

30. Dylai'r tabl IRIS wedi'i lofnodi gael ei ddychwelyd at Medr erbyn **13 Rhagfyr 2024** a hynny i hestats@medr.cymru.

Monitro yn 2024/25

31. Bydd hepgoriadau ffioedd a ddyfarnwyd ar gyfer 2024/25 yn cael eu monitro gan ddefnyddio data cofnod myfyrwyr HESA wedi'i echdynnu trwy'r broses IRIS hefyd, yn yr un ffordd ag ar gyfer hepgoriadau ffioedd a ddyfarnwyd ar gyfer 2023/24.

## Llinellau Amser

| Dyddiad | Cam Gweithredu |
|---|---|
| Rhagfyr 2024 | Darparwyr yn lawrlwytho tabl monitro'r cynllun hepgor ffioedd rhan-amser o allbwn terfynol IRIS ar gyfer 2023/24 ac yn ei ddarparu ar gyfer CCAUC gydag unrhyw newidiadau neu esboniadau sy'n ofynnol fel ei fod yn dangos gwerth gwirioneddol hepgoriadau ffioedd ar gyfer myfyrwyr 2023/24. Dylai'r tabl gael ei lofnodi'n electronig gan y llofnodwr awdurdodedig ar gyfer y data hepgor ffioedd rhan-amser, a chael ei e-bostio at Medr erbyn 13 Rhagfyr 2024 (bydd gwybodaeth gyswllt yn cael ei darparu maes o law). Bydd y data y disgwylir iddo gael ei ddefnyddio mewn dyraniadau ar gyfer 2025/26 ar gael i'w gymeradwyo fel rhan o'r allbynnau IRIS hefyd. |
| O fis Chwefror 2025 | Medr yn gwneud addasiadau i ddyraniadau 2023/24 yn dilyn monitro. Bydd dyraniadau ar gyfer 2025/26, os yn briodol, yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio data allbwn IRIS. |

## Asesu effaith ein polisïau

32. Fel rhan o'n proses wreiddiol i ddatblygu'r polisi fel gynhaliom ni asesiad o'r effaith i ystyried effaith y cynllun hwn ar unigolion â nodweddion gwarchodedig a grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Byddwn yn parhau i ystyried effaith ein polisïau er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn AU, ac i ystyried yr effaith ar y Gymraeg, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r effeithiau posibl tuag at y nodau a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

33. Darparwyr sy'n gyfrifol am adolygu eu hasesiadau hwy eu hunain o'r effaith mewn perthynas â chyllid rhan-amser, gan ystyried yr effaith ar unigolion â nodweddion gwarchodedig ac i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu.

**Gwybodaeth bellach**

34. Ar gyfer ymholiadau technegol ynghylch IRIS anfonwch neges e-bost i hestats@hefcw.ac.uk/hestats@medr.cymru. Ar gyfer pob ymholiad arall sy'n gysylltiedig â'r cynllun cysylltwch â Nicola Hunt (029 2085 9735; nicola.hunt@hefcw.ac.uk/nicola.hunt@medr.cymru).

35. Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn rhoi'r gorau i weithredu ar ôl 31 Gorffennaf 2024. Bydd dyletswyddau, cyfrifoldebau a staff CCAUC yn trosglwyddo i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, o 1 Awst 2024. Bydd unrhyw gylchlythyrau y mae gofyn rhoi sylw iddynt ar ôl 1 Awst 2024 ar gael ar wefan y Comisiwn o fis Awst.

36. Os oes arnoch angen cael gafael ar gyhoeddiad nad yw ar gael yn rhwydd ym mis Awst, anfonwch neges e-bost i cyhoeddiadau@medr.cymru.

## Hepgor ffioedd rhan-amser wedi'i ddyrannu ar gyfer 2024/25

**Cyfanswm yr arian sydd ar gael i'w ddyrannu** **£200,000**

| Darparwr | Cyfanswm y cyllid (£) |
|---|---|
| Prifysgol De Cymru* | 2,500 |
| Prifysgol Aberystwyth | 9,594 |
| Prifysgol Bangor | 5,175 |
| Prifysgol Caerdydd | 50,000 |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 8,124 |
| Prifysgol Abertawe | 2,500 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 7,193 |
| Prifysgol Wrecsam | 48,840 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 50,000 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 11,074 |
| Grŵp NPTC | 2,500 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 2,500 |
| **Cyfanswm** | **200,000** |

* Nid oedd Prifysgol De Cymru yn gallu gwirio eu cyfrif myfyrwyr cymwys erbyn y dyddiad cau gofynnol ar gyfer cylchlythyr hwn. Yn seiliedig ar ddefnydd blaenorol o'r cynllun, maent wedi derbyn lefel sylfaenol o gyllid.